# HANES RHYFEDDOL 'PEN CEFFYL' CWMAFAN

gan Menna Moras

Ar ôl gorchfygu y rhan fwyaf o Loegr gan ddechrau ym mrwydr Hastings yn 1066,dyma Gwilym y Norman (William the Conqueror) yn troi ei sylw at Gymru a dechrau codi cestyll ar y ffin rhwng y ddwy wlad. Mae'n rhoi ei ffrindiau i reoli ynddynt a gelwir y rhain yn Farwniaid.


'Roedd y Normaniaid yn hoffi codi cestyll, i ddechrau byddent yn creu bryncyn bach os nad oedd un naturiol wrth law, yna codi castell o bren a phridd ar ei ben. Mewn amser byddent yn ail godi'r castell o gerrig, i wneud yn siwr ei fod yn rhy gadarn i'r Cymry ymosod arno.




Erbyn amser ein stori ni, bron ddau can mlynedd yn ddiweddarach mae cestyll mawr cerrig yng Nghasgwent, Caerleon a Chaerdydd, ond roedd trychwant am fwy o dir ar y Normaniaid ac yn gwthio'n bellach i mewn i Gymru, gan ymladd a choncro'r bobl a dwyn eu tir, fel y gwnaethant yn Ogwr a'r Pîl. Nawr maen't yn dod i lawr tuag at Margam a gweld tir braf y byddent yn hoffi ei gael.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Afan Wallia oedd yr enw ar y darn gwlad rhwng afonydd Afan a Nedd 'roedd yn ymestyn o dref Aberafan i fyny'r cwm i Gwmafan, Pontrhydyfen a Chymer. 'Roedd yr ardal o dan reolaeth Arglwyddi Afan 'roeddynt wedi bod yn diogelu'r ardal ers blynyddoedd maith ac 'roedd un ohonynt sef Morgan Gam yn enwog yn ei amser am fod yn ymladdwr brwd a dewr. 'Roedd wedi codi castell bychan yn y cwm i fod yn amddiffynfa iddo ef a'i deulu a'i filwyr.




Yn 1245 daeth mintai o filwyr ar sgowt i geisio trechu Arglwyddi Afan, dywedir eu bod wedi dod ar orchymyn y Brenin, Harri'r 3ydd i gael gwared a nhw'n gyfangwbl, oherwydd byddent yn aml yn ymosod yn sydyn ar y Normaniaid i geisio cipio peth o'u tiroedd yn ôl ac yna dianc i'r bryniau. Erbyn hyn 'roedd Morgan Gam wedi marw a'i fab Leision ap Morgan Gam oedd y pen teulu ac Arglwydd Afan. 'Roedd y Normaniaid yn ofni Morgan Gam ond yn meddwl byddai'n hawdd trechu Leision a'i fyddin a'r tyddynwyr oedd yn ei helpu, rhai ohonynt heb arfau ond ambell bicwarch neu fwyall. Credent na fyddai ddim lot o siawns gan y Cymry gan fod ganddynt hwy fyddin gref a gwell arfau.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Daethant i gyffiniau Cwmafan ac i fyny Cwm Clais yn bwriadu goresgyn y castell mewn byr amser. Wedi peth ysgarmes dyma un o'r Marchogion Herbert Fitzmatthew, oedd wedi ennill sawl brwydr yn gyrru o gwmpas i ysgogi ei filwyr a safodd yn ymyl bryncyn heb fod ymhell o'r castell. Yno yn aros o'r golwg uwchben y llwybr 'roedd milwr di-nod, na fuodd mewn brwydr o'r blaen . Edrychodd ar y marchog ar gefn ei farch cryf a'i wisg ysblennydd, crys cadwyni metel, tarian, helmed a chleddyf a meddyliodd wrth ei hun,

“Hy, mae'n eistedd ar ei geffyl mawr yn meddwl fod e'n bwysig ac os caiff ei ffordd bydd yn ein troi ni allan o'n tir, os na fydd wedi ein lladd ni'n gyntaf. Mi allwn i roi bonclust iddo, unrhywbeth i'w atal rhag gwneud mwy o ddifrod. Pan yn blentyn 'roeddwn i yn dda iawn am daflu cerrig i mewn i ganol afon Afan, byddent yn arnofio sawl gwaith  cyn suddo. Fi oedd y gorau am sgimio cerrig. Tybed”?...



Dyma fe'n codi carreg lefn yn slei o'r llawr ac wedi anelu yn ofalus taflodd hi'n chwim a'i holl nerth 'Bing' trawodd y marchog ar ochr ei ben, yn yr unig le nad oedd yr helmed yn ei ddiogelu. Rhoddodd hwnnw floedd annaearol a chwympo i'r llawr.

“O'r mawredd, rwy wedi ei fwrw, os codith e fyny nawr a fy nal i, fe gaf grasfa, mi fyddai'n ddu las, neu torri fy mhen bant efo'i hen gleddyf mawr miniog. O mam bach beth wna i”?...

”Dyw e ddim yn symud, mae'n gelain !”

Mae'r ceffyl yn cynhyrfu ac yn codi ar ei ddwy goes ôl ac yn gweryru'n uchel a rhedeg i ffwrdd. Gwelodd gweddill carfan y Marchog y gyflafan a gwylltio, ond ar hyn mae'r milwyr Cymreig yn gweiddi “Hwre”! ac yn ymosod yn fwy ffyrnig ar y Normaniaid a'u trechu.

********************



Mynach oedd Matthew Paris yn gweithio i'r Brenin ac yn cadw cofnodion o hanes y cyfnod, hefyd 'roedd yn arlunydd arbennig ac yn tynnu lluniau i fynd efo'r stori. Mae wedi cofnodi'r hanesyn yma, yn Lladin ysgrifennai  gan ddisgrifio fel y bu i'r Marchog gael ei ladd yn ymyl amddiffynfa Morgan Gam. Mae'r llun yn dangos y Marchog wedi ei anafu a'r Cymro yn dal carreg. Mae'n siwr y byddai'r Brenin wedi hoffi gweld llun o'r Marchog yn curo'r Cymry dim o'r Marchog yn cael ergyd farwol gan ryw Gymro dibwys mewn carpiau.

Bore trannoeth i'r frwydr aeth ffermwr Cwm Clais allan i'r clos a gwelodd geffyl dieithr yno ac er ei fod yn fwd i gyd, 'roedd cyfrwy godidog a ffrwyn arno. Deallodd y ffermwr o ble daeth y ceffyl druan, aeth ymlaen ato ond dyma'r ceffyl yn taro'r ddaear a'i droed flaen ac yn chwipio'i gynffon yn ôl ac ymlaen yn wyllt.

“Dere nawr, dere yma, ti'n saff fan hyn”

meddai wrth y ceffyl. Ar ôl peth amser o siarad yn dawel ag ef rhoddodd y ceffyl ei ben i lawr a gadael i'r ffermwr fwytho ei wddf. Doedd y ceffyl ddim yn deall yr iaith ond roedd yn synhwyro fod croeso iddo. Bu fyw yn hapus yno efo'r merlod bach Cymreig weddill ei oes.

************************



Un o hen arferion y Nadolig yng Nghymru oedd y 'Fari Lwyd', lle'r oedd criw o bobl yn mynd o gwmps y tai i ganu gwasael, byddai un ohonynt mewn canfas hir wen a phenglog ceffyl ar ei ben, golygfa frawychus iawn! Gwrthodai'r bobl adael y 'Fari Lwyd' i mewn i'r tŷ, ond 'roedd rhaid er mwyn cael lwc dda yn y Flwyddyn Newydd. Yn y diwedd byddai yn cael mynd i mewn a byddent i gyd yn canu a dawnsio a chael llawer o sbri.
Mae'r traddodiad wedi ail ddechrau yng Nghwmafan ers tua 30 mlynedd, ac 'roedd angen penglog ceffyl.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Pwy fuase'n meddwl fod y penglog sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y 'Fari Lwyd' ym mhentre Cwmafan heddiw, wedi dod o fferm Cwm Clais ac o dras y ceffyl hardd yn llun Matthew Paris yr holl flynyddoedd yn ôl.



Death of King Harold, Bayeux Tapestry.
https://en.wikipedia.org/wiki/Battle_of_Hastings#/media/File:Bayeux_Tapestry_scene57_Harold_death.jpg

Map of Wales by Joan Blaeu - collections of the Koninklijke Bibliotheek, National Library of the Netherlands., Public Domain, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=41671507

Painting by Matthew Paris 1245
Matthaei Paris Chronica Maiora II, Parker Library, Corpus Christi College, Cambridge.
https://parker.stanford.edu/parker/catalog/qt808nj0703
P376

Self-portrait of Matthew Paris from the original manuscript of his Historia Anglorum (London, British Library, MS Royal 14.C.VII, folio 6r)
Public domain, via Wikimedia Commons

Fitindia, CC BY-SA 4.0 <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>, via Wikimedia Commons
https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Wildlife_(Horses_in_France).jpg

The Cwmafan Mari Lwyd
Courtesy of Tim Rees